Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# YGG Gwauncaegurwen
# New Road
# Gwauncaegurwen
# Rhydaman
# SA18 1UN

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag YGG Gwauncaegurwen

Mae’r ysgol wedi ei lleoli ym mhentref Gwauncaergurwen o fewn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Mae 173 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 24 o oed meithrin. Maent wedi eu trefnu’n saith dosbarth, gydag un ohonynt yn ddosbarth oed cymysg.

Ar gyfartaledd dros y tair blynedd ddiwethaf, mae 18% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn debyg i’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 23% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig yn uwch na’r ganran genedlaethol o 21%.

Daw tua 62% o’r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Mae bron pob un o gefndir gwyn Prydeinig gydag ychydig iawn o gefndir gwyn arall.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2012 a phenodwyd y pennaeth ym mis Medi 2015.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar sydd â naws ac ethos Cymreig iddi. Mae agweddau cadarnhaol gan ran fwyaf y disgyblion tuag at eu dysgu ac maent yn dangos parch aeddfed at eraill. Ar y cyfan, maent yn gwneud cynnydd cadarn ac yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus.

Mae'r cwricwlwm yn ennyn diddordeb y disgyblion yn fedrus, ac mae pwyslais effeithiol ar ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Ar y cyfan, mae'r addysgu'n llwyddo i ddarparu profiadau gwerthfawr i'r disgyblion a gwneir defnydd effeithiol iawn o'r ardal allanol i atgyfnerthu'r gweithgareddau dysgu.

Mae'r arweinwyr yn canolbwyntio'n synhwyrol ar wella medrau disgyblion yn barhaus ac maent yn cynllunio'n ofalus er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth i wella safonau ymhellach. Maent yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r prif feysydd sydd angen eu gwella, ac yn defnyddio'r wybodaeth honno yn briodol i osod cyfeiriad strategol perthnasol i'r ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Mynd i’r afael â’r materion diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Sicrhau bod yr addysgu yn darparu her briodol i’r holl ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu, a bod adborth athrawon yn galluogi disgyblion i wella eu gwaith ymhellach

A3 Gwella medrau sillafu ac atalnodi disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yno, mae llawer yn gwneud cynnydd cadarn ac yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw ychydig o'r disgyblion bob amser yn gwneud cystal cynnydd â'r hyn a ddisgwylir iddynt ei wneud.

Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae medrau llythrennedd Cymraeg rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Mae llawer yn gwrando ar eu cyfoedion yn aeddfed, gan gyfrannu'n synhwyrol at drafodaethau, er enghraifft wrth feddwl am bwysigrwydd bwydo'r adar yn y gaeaf. Mae llawer yn darllen i safon sy'n gyfystyr â'u hoed yn briodol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dod i adnabod geirfa newydd yn gyflym, ac erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn egluro manylion perthnasol o destunau yn hyderus. Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf yn y cyfnod sylfaen yn gadarn. Yn y dosbarth derbyn, maent yn arbrofi a gwneud marciau yn glir gan gynhyrchu darnau o ysgrifennu cynnar. Ym Mlwyddyn 1, mae llawer o ddisgyblion yn cofnodi digwyddiadau yn gryno, fel mewn llinell amser am hanes Twm Siôn Cati. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu at wahanol ddibenion yn dda, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau trefnus am sut i wneud cawl, ac i greu gwahoddiad i barti.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar eu medrau llythrennedd Cymraeg a Saesneg yn bwrpasol. Maent yn magu medrau siarad a gwrando aeddfed, ac erbyn Blwyddyn 6, er enghraifft, maent yn cynnal dadl yn effeithiol am yr angen i wisgo gwisg ysgol neu beidio. Mae llawer yn darllen yn briodol yn y ddwy iaith, gan fwynhau llyfrau ffuglen a ffeithiol. Maent yn ymarfer eu medrau darllen yn gynyddol annibynnol er mwyn dod o hyd i wybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft am wledydd y byd a buddion bwyta ffrwythau gwahanol. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu at wahanol bwrpasu ar draws meysydd y cwricwlwm yn hyderus. Enghreifftiau da o hyn yw storïau dychmygus y disgyblion am ddyfeiswyr dawnus a'u disgrifiadau o'u taith i Ben y Fan. Er hyn, nid yw sillafu mwyafrif y disgyblion na'u defnydd o atalnodi yn ddigon cywir.

Ar y cyfan, mae medrau rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn trin arian yn gynyddol gywir, ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, amser a phwyso. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio eu medrau tynnu ac adio i ddatrys problemau, er enghraifft yng nghyswllt eu stori ddosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn adalw eu gwybodaeth fathemategol flaenorol yn addas er mwyn cefnogi eu gwaith ar draws gwahanol feysydd y cwricwlwm. Mae enghreifftiau da o hyn yn cynnwys sut mae disgyblion ar waelod y cyfnod allweddol yn cofnodi gwybodaeth am chwaraewyr rygbi, ei chyflwyno ar ffurf graff bar a datrys problemau mathemategol am stadiwm rygbi'r gwahanol wledydd. Erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio canrannau yn gywir wrth ymchwilio i wahanol faterion fel cynhwysion bwyd. Ar draws

cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cyfuno eu medrau rhifedd a'u medrau ymchwilio gwyddonol yn llwyddiannus wrth gyflawni prosiectau amrywiol, er enghraifft yn seiliedig ar swyddogaeth y sgerbwd.

Mae llawer o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol ar draws amrywiol feysydd y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth ddefnyddio meddalwedd gwahanol ac wrth gadw ac adalw gwybodaeth o ffynhonnell ar-lein. Mae rhan fwyaf y disgyblion ieuengaf y cyfnod sylfaen yn creu darluniau sy'n gysylltiedig â stori eu dosbarth, ac yn rheoli tegan rhaglenadwy i symud i gyfeiriad penodol yn llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio llechi electronig yn effeithiol. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio cronfa ddata syml i gofnodi hoff ffrwyth aelodau'r dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn defnyddio TGCh yn synhwyrol wrth gyflwyno gwybodaeth. Mae enghreifftiau da o hyn yn cynnwys eu cyflwyniadau am wledydd o fewn pencampwriaeth rygbi'r byd a'u defnydd o'r sgrin werdd i gyflwyno rhagolygon y tywydd. Ar y cyfan, mae'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae gan bron pob un disgybl agwedd gadarnhaol tuag at eu hysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel yno ac yn gwybod at bwy i droi os byddant yn poeni neu'n gofidio. Mae bron pob un yn groesawgar a chwrtais tuag at ymwelwyr, a thuag at ei gilydd. Maent yn cyfarch ei gilydd, y staff ac ymwelwyr mewn ffordd gyfeillgar, naturiol a hynaws iawn.

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Dangosant agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith, gan ymdrechu'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill mewn gwersi ac yn ystod amser egwyl. Mae strategaeth y 'cyfeillion caredig' yn gweithio'n llwyddiannus er mwyn sicrhau bod y disgyblion eraill yn ddiogel ac yn hapus, er enghraifft drwy eu hannog i ddefnyddio 'meinciau myfyrio' amser egwyl. Mae'r 'ystafell stwnsh' yn gweithio'n effeithiol iawn wrth annog a gwobrwyo ymddygiad a gwaith da.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn symud yn hwylus o fewn y gwersi a'r gweithgareddau dilynol. Mae annibyniaeth disgyblion wrth ymroi at weithgareddau ymarferol tu fewn a thu allan i'r dosbarth yn amlwg. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n dda ar eu tasgau ac yn cydweithio'n llwyddiannus, gan wrando ar, a pharchu, cyfraniadau a syniadau eu cyfoedion yn effeithiol. Trwy gynnal 'wythnos ysbrydoli' ar ddechrau bob thema, mae'r disgyblion yn cyfrannu syniadau synhwyrol am weithgareddau yr hoffent eu hastudio. Mae mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn dechrau deall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith gan werthuso'u hymdrechion a'u gwella yn gynyddol annibynnol yn sgil adborth amserol eu hathrawon. Fodd bynnag, mae lleiafrif y disgyblion yn parhau ychydig yn ansicr am sut i ymateb i'r adborth hwn.

Mae bron pob un disgybl yn manteisio'n dda ar y profiadau amrywiol a gânt i wella'u ffitrwydd, eu hiechyd a'u lles corfforol. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae enghreifftiau da yn cynnwys sut mae'r disgyblion yn ymateb i'r sesiynau 'chwarter chwim' lle y cânt gyfle i gerdded milltir y dydd, a chymryd rhan mewn sesiynau rheolaidd iddynt dawelu'r corff a'r meddwl. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gref o

bwysigrwydd bwyta’n iach, yfed dŵr a chadw’n heini. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau ymarfer corff sy’n cyfrannu’n effeithiol at eu ffitrwydd. Mae gan yr ysgol gyswllt cryf â’r gymuned gan fanteisio ar arbenigedd gwahanol unigolion ym maes iechyd a ffitrwydd; er enghraifft, mae aelod o dîm pêl-droed Abertawe yn dod i hyfforddi a gwella sgiliau pêl-droed y disgyblion yn wythnosol.

Mae cyfraniad a llais y disgybl yn amlwg mewn sawl agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae aelodau’r cyngor ysgol yn grŵp brwdfrydig o ddisgyblion sydd â rôl weithredol. Maent yn cydweithio â, a chefnogi, aelodau o bwyllgorau eraill yr ysgol, fel y pwyllgor eco, y dewiniaid digidol, y pwyllgor hawliau a phwyllgor datblygu’r iaith Gymraeg. Mae’r disgyblion yn ddinasyddion cyfrifol a moesegol sy’n medru cyfrannu’n gadarnhaol i’r gymdeithas, er enghraifft drwy drefnu deiseb a’i hanfon at y cynghorydd lleol ynglŷn â rheoli traffig wrth ymyl yr ysgol. Mae llawer o’r disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth gref o’u hawliau ac mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag asiantaethau allanol sy’n hybu eu hymwybyddiaeth o degwch a goddefgarwch yn llwyddiannus.

Mae’r ysgol wedi datblygu nifer o strategaethau llwyddiannus wrth ymdrin â gwella presenoldeb disgyblion ac, o ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol wedi aros yn gyson uchel dros y tair mlynedd diwethaf.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng y staff a’r disgyblion, sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu safonau a’u lles. Mae’r awyrgylch ddysgu yn gadarnhaol a chefnogol, sy’n datblygu brwdfrydedd y disgyblion tuag at eu dysgu. Mae’r staff a’r athrawon yn cydweithio’n effeithiol ac yn cymell a rheoli ymddygiad y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ddwyn i gof ddysgu blaenorol yn rheolaidd, ac i adeiladu ar yr hyn y maent eisoes yn ei wybod. Mae rhan fwyaf o’r athrawon yn defnyddio amrywiol dechnegau holi yn llwyddiannus i ymestyn a datblygu ymhellach ymatebion disgyblion, a chael amcan o’u dealltwriaeth. Maent yn holi cwestiynau agored, ac yn aml yn mynnu ymatebion manylach gan y disgyblion. Gan amlaf, mae cyfarwyddiadau ac esboniadau athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn deall beth sydd angen iddynt ei gyflawni, er nad yw hyn bob amser yn gyson. Mae’r sesiynau dysgu yn ddiddorol ac mae'r staff yn annog y disgyblion i ddyfalbarhau wrth wynebu anawsterau. Fodd bynnag, lle mae’r addysgu’n llai effeithiol, nid yw’r athrawon bob amser yn herio’r disgyblion yn ddigon effeithiol er mwyn iddynt gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae staff yn ymyrryd yn synhwyrol i gynorthwyo disgyblion gyda’u gwaith ar adegau priodol ac yn darparu adborth llafar cyson iddynt. Mae hyn yn hybu’r disgyblion i ganolbwyntio, eu hannog i fyfyrio ar eu hymdrechion ac i wirio darnau penodol o’u gwaith. Gan amlaf, mae’r athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig adeiladol i ddisgyblion, sy’n eu galluogi i adnabod beth y maent wedi ei gyflawni a’r hyn y dylent ei ystyried i wella eu gwaith ymhellach. Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, mae cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ymateb i’r adborth. Er hyn, ar adegau, mae sylwadau’r athrawon yn rhy anodd i fwyafrif o’r disgyblion ieuengaf ddeall beth sydd angen iddynt ei wella.

Mae rhan fwyaf y staff yn manteisio’n dda ar gyfleoedd i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar. Mae’r ethos Cymreig cryf sy’n bodoli, ynghyd â'r ddarpariaeth, yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio'n llwyddiannus ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig ac mae hyn yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o falchder y disgyblion tuag at yr ardal leol a diwylliant Cymru. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus.

Mae staff yn darparu cwricwlwm eang i’r disgyblion, sy'n eu hysbrydoli’n llwyddiannus i ddysgu. Maent yn paratoi gweithgareddau diddorol iddynt sy'n seiliedig ar bedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae’r staff yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar y cynllunio ar ddechrau eu themâu, sy’n eu hysgogi i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Mae'r athrawon yn addasu'r cynllunio'n fedrus i ddilyn y trywyddau a’r syniadau hyn. Mae enghraifft dda o hyn yn cynnwys sut mae staff wedi defnyddio syniadau disgyblion i astudio elfen o gadw’n heini a bwyta’n iach.

Mae’r athrawon yn canolbwyntio’n dda ar ddatblygu medrau disgyblion, gan sicrhau bod eu cynlluniau a’u haddysgu yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt adeiladu ar eu gallu a’u gwybodaeth flaenorol. Ar y cyfan, maent yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion ar draws y meysydd dysgu yn llwyddiannus. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn gwneud defnydd effeithiol o'r ‘sesiynau sgiliau’ i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd yr holl ddisgyblion a gwneir defnydd pwrpasol o adnoddau amlgyfrwng gwerthfawr i ddatblygu eu medrau digidol. Agwedd effeithiol arall o waith yr ysgol yw’r ffordd fwriadus y maent yn cynllunio i ddatblygu medrau ymchwiliol disgyblion ynghyd â’u gallu i ddatrys problemau, yn enwedig ar frig yr ysgol. Trwy ddatblygu cynlluniau ac addysgeg ‘gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg’, maent yn cynnig profiadau ysgogol i ddisgyblion ddefnyddio ystod o fedrau er mwyn ymchwilio i brosiectau amrywiol, fel creu cartref i wiwer. Fodd bynnag, cyfyng yw’r cynnydd a’r dilyniant a wneir wrth ddatblygu medrau’r disgyblion mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 2.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn a darperir tasgau ffocws gwerthfawr i’r disgyblion yn y gwahanol ardaloedd dysgu. Gwneir defnydd da iawn o’r ardal allanol i gynorthwyo’r addysgu ac i sbarduno diddordeb y disgyblion, er enghraifft wrth ddarparu cyfleoedd iddynt gymhwyso eu medrau ac i gynnal ymchwiliadau perthnasol yn ardal y goedwig.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae’r ysgol yn gymuned groesawgar a chynhwysol sydd â naws ac ethos Cymreig iddi. Mae’r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae datblygu eu hyder i lwyddo yn ganolog i’w gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i fonitro ac olrhain cynnydd y disgyblion ac mae staff yn eu diweddaru’n gyson i sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol a chywir. Wrth wneud gwerthusiadau cyson a dadansoddi perfformiad disgyblion yn rheolaidd, mae gan athrawon adnabyddiaeth dda o gynnydd grwpiau ac unigolion. Defnyddir cynorthwywyr dysgu yn llwyddiannus i gynorthwyo unigolion mewn meysydd penodol ac i weithredu ystod addas o raglenni cymorth gwerthfawr iddynt. Mae gan yr ysgol

weithdrefn lwyddiannus i wella lles emosiynol disgyblion drwy gynnig sesiynau ymyrraeth llythrennedd emosiynol i'r sawl sydd eu hangen. Mae'r gweithgareddau hyn yn galluogi ychydig o ddisgyblion i siarad am eu teimladau mewn grwpiau bach cynhaliol ac yn eu helpu i ddygymod yn dda â'u bywyd dyddiol.

Mae'r staff yn adnabod anghenion addysgol arbennig a phersonol y disgyblion yn gynnar ac yn darparu rhaglenni ymyrraeth pwrpasol ar eu cyfer. Mae gan y disgyblion hyn gynlluniau addysg unigol manwl ynghyd â thargedau sy'n benodol a mesuradwy. Mae'r cynlluniau a'r targedau yn cael eu hadolygu ar y cyd gan y staff, y rhieni a'r disgyblion er mwyn hybu cynnydd yn effeithiol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni ei rôl yn fedrus gan weithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i sicrhau'r cymorth gorau posibl ar gyfer y disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd cadarn tuag at eu targedau personol.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn seiliedig ar ei pholisi drws agored. O ganlyniad, mae'r rhieni'n cydweithio'n llwyddiannus â'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth effeithiol o'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn cefnogi eu plant. Enghraifft dda o hyn yw'r cyfle a drefnodd yr ysgol i rieni arsylwi gwersi, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o weithdrefnau a'r disgwyliadau o fewn y dosbarthiadau.

Mae gan yr ysgol drefniadau llwyddiannus i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am effaith bwyta ac yfed yn iach ar eu cyrff fel rhan o'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ymchwilio i'r elfennau sydd mewn melysion a hanfodion y grwpiau bwyd sydd eu hangen ar blât o fwyd iach. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o bwysigrwydd diet cytbwys. Mae'r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd buddiol i sicrhau bod disgyblion yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau i ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion fanteisio ar ystod o brofiadau anturus drwy ddefnydd effeithiol o'r adnoddau allanol ar dir yr ysgol, wrth drefnu alldaith i Ben y Fan ac wrth ymweld â chanolfannau antur a gwersyll yr Urdd, er enghraifft.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau moesol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus mewn gwersi perthnasol ac yn ystod gweithgareddau eraill, fel wythnos gwrth-fwlio. Trwy fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli, mae'r staff yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion brofi elfennau ysbrydol a moesol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i'r disgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach, er enghraifft wrth gymharu bwydydd Cymru a Siapan tra'n cyflawni gwaith thema ar Gwpan Rygbi'r Byd.

Mae staff yn rhoi cyfleoedd ysgogol i ddisgyblion arbrofi ag amrywiaeth o gyfryngau creadigol. Mae'r rhain yn cyfrannu'n helaeth at feithrin eu hunanhyder, eu medrau mynegiannol a'u gallu i gydweithio'n dda mewn tîm. Er enghraifft, maent wedi cydweithio ag artistiaid Cymreig i greu murluniau, cystadlu mewn eisteddfodau a pherfformio gyda chyflwynwyr ar S4C.

Mae'r staff yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol sy'n datblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn iawn o hanes a thraddodiadau Cymru ac yn cyfrannu at naws ac ethos Cymreig yr ysgol.

Er bod trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, tynnwyd sylw’r llywodraethwyr at faterion diogelwch yn ystod yr arolygiad.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae’r pennaeth yn darparu arweiniad effeithiol i’r ysgol, gan sicrhau cyfeiriad strategol clir ynghyd â chymuned gartrefol a chynhwysol i’r disgyblion. Mae ganddo weledigaeth eglur sy’n seiliedig ar sicrhau bod dysgwyr yn llwyddo trwy gynnig iddynt amrediad o brofiadau dysgu cyfoethog mewn awyrgylch hapus a chefnogol. Mae hybu’r Gymraeg a Chymreictod yn flaenoriaeth iddo ac mae’n ganolog i holl waith yr ysgol. Mae’r pennaeth yn gweithio’n fwriadus a llwyddiannus gyda’r disgyblion, y staff, y llywodraethwyr a’r rhieni i weithredu’r weledigaeth hon.

Mae aelodau o'r uwch dîm rheoli yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir, ac yn gweithredu ar hyn yn fwriadus. Enghraifft benodol yw'r ffordd maent yn cymryd cyfrifoldeb am arwain y gwaith cynllunio ac asesu ar draws yr ysgol. Mae aelodau’r staff yn cydweithio’n effeithiol gan gyflawni eu rolau yn dda a chefnogi’r pennaeth yn gydwybodol. Mae athrawon yn cyfarfod yn ffurfiol ac yn anffurfiol yn rheolaidd i drafod cynnydd ac amcanion gwella yn bwrpasol. Mae hyn yn sicrhau bod gweithdrefnau’r ysgol o ddydd i ddydd yn gweithio’n dda ac yn rhoi ffocws clir i waith yr holl staff.

Mae diwylliant ac ethos cadarn o gefnogi dysgu proffesiynol staff yn bodoli yn yr ysgol. Mae’r athrawon yn frwdfrydig wrth fynd i’r afael â datblygiadau diweddar ym maes addysg, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a chyflwyno’r fframwaith cymhwysedd digidol. Mae’r pennaeth yn darparu cyfleoedd da i bob aelod o staff wella eu harfer, i godi safonau ac i ymateb i anghenion disgyblion unigol. Enghraifft dda o hyn yw’r hyfforddiant a ddarparwyd i’w galluogi i ymateb i anghenion disgyblion ag awtistiaeth. Mae’r trefniadau i reoli perfformiad staff yn gadarn, ac yn cysylltu’n uniongyrchol â blaenoriaethau’r ysgol ac anghenion proffesiynol athrawon unigol. O ganlyniad, mae staff yn cael cyfleoedd da i ddatblygu’n broffesiynol ac yn cyfrannu’n fedrus at welliannau i’r addysgu a’r dysgu, er enghraifft wrth wella’r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso yn greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol gyda ffocws clir ar wella deilliannau disgyblion. Mae’r broses yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol ynglŷn ag ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau’r ysgol a’r rhan fwyaf o’r prif feysydd sydd angen eu gwella. Mae’r pennaeth yn sicrhau bod gan yr holl staff rôl weithredol yn y broses. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella. Mae’r ysgol yn ymateb yn fwriadus i’w blaenoriaethau gwelliant. Adlewyrchir hyn yn y modd y mae’r ysgol wedi gosod cynllun defnyddiol ar waith i wella medrau disgyblion. Mae enghraifft dda o hyn yn cynnwys y pwyslais a roddir ar ddatblygu medrau TGCh disgyblion dros y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi codi safonau yn y maes hwn yn llwyddiannus.

Mae’r corff llywodraethol yn ymroddgar ac yn gefnogol i’r ysgol. Trwy gydweithio â’r staff, arsylwi ar wersi a thrafod enghreifftiau o waith gyda’r disgyblion, maent yn chwarae rôl weithredol yn y prosesau hunanwerthuso. Mae hyn, ynghyd â derbyn adroddiadau pwrpasol yr uwch dîm rheoli, yn arwain at ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau’r ddarpariaeth a’r meysydd i’w gwella. O ganlyniad, mae rôl strategol y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol yn datblygu’n llwyddiannus ac yn eu galluogi i herio’r ysgol am ei pherfformiad yn gydwybodol.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithiol.  Maent yn neilltuo cyllid yn briodol i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol ac yn sicrhau bod y grant datblygu disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i liniaru effaith tlodi.  Mae gan yr ysgol ardal allanol eang iawn a gwneir defnydd gwerthfawr iawn ohono i hybu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol disgyblion.  Mae'r ysgol yn elwa yn fawr o gyfraniadau ariannol gan gymdeithas rhieni, athrawon a ffrindiau'r ysgol ar gyfer prynu adnoddau, er enghraifft i'r ardal allanol, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at brofiadau dysgu'r disgyblion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2020